
# YSGOL Y MOELWYN, BLAENAU FFESTINIOG

Buddsoddwyr Mewn Pobol

*Sylfaen i`r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol*

CANOLFAN ACHREDEDIG CBAC WJEC ACCREDITED CENTRE




Gwobr Genedlaethol Cymru

Profiad Gwaith
*Work Experience*

Addysg Gysylltiedig â Gwaith
*Work Related Learning*

*Welsh Quality Award*

Eco ysgol

Gwobr
*Award*

***Eco schools***

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
*The Basic Skills Agency*

The Basic Skills Agency
Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
QUALITY MARK
MARC SAFON

*A foundation for the future in a caring environment*

Gwobr Anrhydeddus

Clwb Gwaith Cartref

Education EXTRA

*Homework Club Certificate of Distinction*

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd - Rhwydwaith Cymru
Welsh Network – Gwynedd Healthy Schools Scheme


| | |
|---|---|
| Llawlyfr | 2020-2021 |
| *Prospectus* | |

# YSGOL Y MOELWYN, BLAENAU FFESTINIOG

Sylfaen i`r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol

AMSER DYN YW EI GYNYSGAETH

A foundation for the future in a caring environment



| Gofalu am blant | Rhan 1 |
|---|---|
| *Pastoral care* | *Section 1* |

# GOFALU AM BLANT

***Pwrpas y sustem fugeiliol yw gofalu am les pob plentyn er mwyn caniatau iddynt ddatblygu yn emosiynol, yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn addysgol.***
***Rydym yn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn HAPUS yn yr ysgol.***

**Trefniadau**: Mae'r drefn fugeiliol wedi ei seilio ar Diwtoriaid Dosbarth a Phenaethiaid Blwyddyn. Bydd y Tiwtor Dosbarth yn aros gyda'r disgybl am o leiaf un flwyddyn ar y tro yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol ac felly daw i'w adnabod yn dda iawn. Y Tiwtor sydd yn gyfrifol am y cyfnodau tiwtorial ac hefyd am gofrestru'r dosbarth. Bydd yn cyfeirio unrhyw broblem at y Pennaeth Blwyddyn.

Y Pennaeth Blwyddyn sy'n gyfrifol am les cyffredinol y disgyblion o dan ei ofal. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro cynnydd y disgyblion a chysylltu gyda rhieni yn ôl y galw.

Mae Pennaeth Blwyddyn 7 hefyd yn gyfrifol am y trefniadau trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

Os oes gan riant unrhyw bryder dylid cysylltu yn y lle cyntaf gyda'r Pennaeth Blwyddyn naill ai ar y ffôn neu drwy drefnu cyfweliad personol. Dyma restr o'r Penaethiaid Blwyddyn a`r amser y byddant ar gael i gyfarfod rhieni (wrth gwrs fe fydd yn bosibl cysylltu â hwy ar adegau eraill hefyd).

| **Blwyddyn** | **Pennaeth Blwyddyn** |
|---|---|
| Blwyddyn 10 ac 11 | Mrs. Mari Roberts |
| Blwyddyn 9 | Mrs. Rhian Williams |
| Blwyddyn 8 | Mrs. Gail Chart Parry |
| Blwyddyn 7 | Mrs. Eleri Moss a Miss Suzanne Roberts |

**Gwasanaeth Lles Addysg:** Mae`r Swyddog Lles Addysg yn gweithio'n agos â'r ysgol er mwyn sicrhau'r gofal mwyaf effeithiol. Mae'r Swyddog yn cynorthwyo gydag unrhyw elfen o les disgybl. Gellir cysylltu â'r Swyddog Lles Addysg drwy'r ysgol. Bydd y swyddog lles fel arfer yn yr ysgol bob dydd Mercher. Mae`r ysgol hefyd yn darparu gwasanaeth mentora, cwnsela a seicolegol ar gyfer disgyblion.

**Cyfle Cyfartal:** Mae gan yr ysgol bolisi cyfle cyfartal sy`n cyfeirio at gyfle cyfartal disgyblion a staff. Y polisi hwn yw`r sail i ddyletswydd y Corff Llywodraethol i hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda rhwng pawb o bob cefndir, hil a gallu. Caiff y polisi ei weithredu ar bob lefel o fywyd yr ysgol – ar lefel weinyddol, ysgol gyfan, pynciau unigol, tiwtorials a gweithgareddau allgyrsiol.

**Gweithgareddau all-gyrsiol:** Mae gan y disgyblion ddewis eang o weithgareddau allgyrsiol i ddewis ohonynt:

1 Gwersi offerynnol, corau a phartïon ysgol.
2 Gweithgareddau'r Urdd.
3 Perfformiadau ysgol.
4 Timau rygbi, pêl-droed, pêl fasged, hoci, pêl rwyd, trawsgwlad, athletau.
5 Clybiau amser cinio (e.e. Gwyddbwyll, Drafftiau, Ffrangeg, Mathemateg, Cyfrifiadureg, Clymu Plu, Pêl Fasged, Clwb Gymnasteg a.y.y.b.).
6 Tiwtorials amrywiol.

Mae'n bwysig fod disgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau er mwyn ychwanegu at ansawdd eu bywyd ysgol.

**Disgyblaeth**: Amcan yr ysgol yw hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth a pharch a chwrteisi at eraill ymysg ein disgyblion. Mae gan yr ysgol bolisi clir ar ymddygiad ac mae'r staff (yn enwedig y Tiwtor Dosbarth) yn egluro'n glir i'r disgyblion y safonau a ddisgwylir. Mae'r ysgol yn awyd-

dus i gydnabod a gwobrwyo ymddygiad da ac ymdrech ganmoladwy gan y disgyblion. Bydd nifer o wobrau yn cael eu rhannu pob blwyddyn.

Mewn rhai achosion bydd yr ysgol yn defnyddio cosb (cosb gan athro unigol neu gosb gan y Pennaeth neu`r Dirprwy). Fel rhan o gosb fe all disgybl gael ei gadw i mewn yn ystod yr amser egwyl a chinio neu ei gadw ar ôl ysgol. Bydd y rhieni yn cael gwybod ymlaen llaw i egluro unrhyw gosb ar ôl ysgol.

Mae gan y Pennaeth yr hawl i wahardd disgybl o'r ysgol naill ai am gyfnod penodol neu yn barhaol. Nid yw'n cymryd cam o'r fath yn ysgafn a gellir cael mwy o wybodaeth am y drefn wahardd gan y Pennaeth.

**Trefniadau amser cinio:** Er lles a diogelwch mae ganddynt 3 dewis yn ystod y cyfnod

cinio:

1 cymryd cinio ysgol
2 dod â phecyn cinio i'w fwyta yn ffreutur yr ysgol
3 mynd adref (neu at berthynas mewn oed) i gael cinio.

Mae'r dewis olaf ar gael yn unig i'r disgyblion sy'n byw ym Mlaenau Ffestiniog. Mae gofyn i rieni disgyblion sy'n byw ym Mlaenau Ffestiniog ac sy'n dymuno mynd adref i ginio lenwi ffurflen gais ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn cael tocyn caniatâd am y flwyddyn.

Mae`r ysgol yn argymell disgyblion i fanteisio ar fwyd yr ysgol. Mae`r ysgol yn rheoli y ffreutur ei hun ac mae grŵp maeth yr ysgol sy`n cynnwys athrawon, disgyblion, llywodraethwyr a swyddog iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a chynllunio`r fwydlen a sicrhau fod y ddarpariaeth yn cyrraedd safonau uchel cynllun 'Blas am Oes' y Cynulliad. Mae`r ffreutur ar agor hefyd amser egwyl a gellir cael diod, paned neu rywbeth ysgafn i'w fwyta ganol bore.

Mae dŵr ffres wedi ei ffiltro bob amser ar gael yn rhad ac ddim yn yr ysgol.

Beth bynnag yw eich penderfyniad cofiwch fod bwyta`n iach yn hollbwysig - corff iach, meddwl iach.

**Gadael tir yr ysgol**: Ni chaniateir i ddisgyblion adael tir yr ysgol yn ystod oriau'r ysgol oni chafwyd caniatâd swyddogol. Gofynir i rieni wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth am ganiatâd o'r fath.

Pwysleisir nad oes gan unrhyw ddisgybl yr hawl i adael tir yr ysgol am unrhyw reswm heb ganiatâd penodol ac ysgrifenedig gan y Pennaeth neu'r Dirprwy neu`r Pennaeth Blwyddyn.

*Ni fydd Ysgol y Moelwyn na Chyngor Sir Gwynedd yn gyfrifol am ddiogelwch neu ymddygiad unrhyw ddisgybl sy'n gadael tir yr ysgol heb ganiatâd.*

**Absenoldeb**: Mae'r ysgol yn disgwyl i bob disgybl fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae presenoldeb cyson yn bwysig iawn i addysg disgyblion. Mae'r ysgol yn disgwyl i rieni gefnogi yr ysgol ac addysg eu plant drwy annog eu plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac i beidio â chaniatau absenoldebau onibai eu bod yn **hollol angenrheidiol**. Ni fydd y Pennaeth yn caniatau i neb golli ysgol. Dylai rhiant roi gwybod i'r ysgol trwy ffonio ar fore cyntaf yr absenoldeb ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb. Yn achos absenoldeb dau ddiwrnod a mwy dylid hefyd cysylltu â`r ysgol wneud trefniadau i gael gwaith i`w wneud gartref. Dylai pob apwyntiad gyda'r deintydd neu'r meddyg fod tu allan i oriau'r ysgol. Os nad yw hynny'n bosibl dylid ceisio trefnu'r apwyntiad ar ôl 2.45 y prynhawn.

Gall y safle yma fod o gymorth i estyn cymorth i rieni benderfynu am faint o amser y dylid cadw plant adref pan yn sâl: http://www.nhs.uk/Pages/HomePage.aspx

Mae Corff Llywodraethol Ysgol y Moelwyn wedi penderfynu peidio ag awdurdodi absenoldebau estynedig gan ddisgyblion sy`n mynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.

**Bysiau ysgol:** Rhaid i bawb sy'n dod i'r ysgol ar fws gadw at safonau uchel o ymddygiad yn ystod y daith. Yr Awdurdod Addysg sy'n gyfrifol am y drafnidiaeth ond fe all yr ysgol wahardd disgyblion rhag defnyddio'r cludiant mewn achosion lle mae disgybl yn ymddwyn mewn ffordd bergylus neu yn camymddwyn. Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwregys diogelwch pan fônt ar gael.

**Iechyd a Diogelwch:** Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a diogelwch a gaiff ei fonitro gan isbw-

yllgor Tir ac Adeiladau y Corff Llywodraethol.

Mae trefniadau goruchwylio yn cynnwys cyfnod y bore o 8:40 a.m. ymlaen a chyfnodau diwedd dydd ger giat yr ysgol - mae hyn yn sicrhau diogelwch y disgyblion ar ddiwedd y dydd. Disgwylir i ddisgyblion ddefnyddio pass cyn gadael yr ysgol yn ystod y dydd. Caniateir i ddisgyblion sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am bass cinio i adael tir yr ysgol i fynd gartref i ginio. Mae`r isod yn crynhoi rhai prif bwyntiau ynglyn â iechyd a diogelwch yn yr ysgol:

- Disgwylir i ymwelwyr ddod i`r swyddfa yn gyntaf.
- Gofynir i rieni hysbysu'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar ddisgybl.
- Ni chaniateir ysmygu na defnyddio **'e-sigaret'** yn yr ysgol.
- Os yw disgybl yn sâl rhaid adrodd i'r Swyddfa gyda nodyn gan yr athro.
- Dylid cadw at ochr chwith y coridor wrth gerdded yn yr ysgol ac ni ddylid rhedeg.
- Dylid ymddwyn mewn ffordd ddiogel ar bob achlysur a dylid cadw at reolau arbennig mewn rhai ystafelloedd e.e. labordai, gweithdai, campfa.
- Cofnodir pob damwain mewn llyfr cofnod pwrpasol.
- Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â ffonau symudol na 'laser pens' i`r ysgol.
- Cyflwynir y trefniadau uchod i ddisgyblion yn ystod cyfnodau tiwtorial, cyfnodau Addysg Bersonol neu yn ystod gwersi penodol.

Rhaid i ddisgyblion fod yn gyfrifol eu hunain am eu heiddo ac nid yw'r ysgol yn awyddus i ddisgyblion ddod ag eiddo i'r ysgol heb angen. Os oes rhaid dod ag eiddo gwerthfawr i'r ysgol dylai'r disgybl ei adael yn y swyddfa neu ym meddiant athro er diogelwch. Yn ystod gemau a chwaraeon dylid rhoi eiddo (gan gynnwys arian) yng ngofal yr athro. Disgwylir rhieni i sicrhau fod enwau'r disgyblion ar eu dillad a'u heiddo - mae un ystafell gotiau i'r merched yn yr ysgol ond caiff pob disgybl gyfle i logi locer a disgwylir bod defnydd da yn cael ei wneud o'r rhain. Dylai disgyblion ofyn caniatâd cyn gadael offer neu eiddo personol yn yr ysgol dros nos (ar wahân i eiddo yn locer personol y disgybl).

*Ni ellir ystyried yr ysgol yn gyfrifol am eiddo os nad yw'r disgybl yn cydymffurfio â'r uchod.*

**Cyswllt rhwng yr ysgol â'r cartref:** Anogir rhieni i gymryd diddordeb yn addysg eu plant ac i feithrin perthynas iach rhwng yr ysgol a'r cartref. Disgwylir rhieni i fynychu Cyfarfodydd Rhieni a gwahoddir rhieni i nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae croeso i rieni hefyd drefnu i ddod i`r ysgol ar adegau eraill i drafod unrhyw agwedd ar addysg ei blentyn.

**Nyrs Ysgol:** Mae nyrs ysgol yn treulio cyfnod cinio wythnosol yn yr ysgol. Gwasanaeth cyfrinachol yw hwn ar gyfer disgyblion ac mae`r gwasanaeth ar gael ar y ddealltwriaeth na fydd yr ysgol ar unrhyw gyfrif yn gofyn am wybodaeth a roddwyd i`r nyrs ysgol gan ddisgybl nac felly yn cysylltu â rhieni. Gall rhieni atal eu plant rhag defnyddio`r gwasanaeth hwn drwy hysbysu`r Pennaeth trwy lythyr.

**Polisi Gwrth fwlio:** Mae gan yr ysgol bolisi a strategaeth wrthfwlio weithredol ac effeithiol. Anogir unrhyw riant sydd â phryder yn y cyswllt hwn i gysylltu ar unwaith â phennaeth blwyddyn y plentyn.

**GWISG YSGOL Y MOELWYN AC YMDDANGOSIAD**

**Medi 2020 – Gorffennaf 2021**

Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg swyddogol yr ysgol bob amser heblaw am gyfnodau penodol pan maent yn cael caniatad arbennig gan y Pennaeth i ddod hebddi. Rhaid i'r wisg fod yn weddus ac yn daclus ar bob achlysur.

**Gwallt:** Dylai gwallt pob disgybl fod yn daclus ac yn ddiogel. Ni ddylid lliwio gwallt mewn lliwiau afresymol ac annaturiol – os yn ansicr dylid cysylltu a'r ysgol bob tro (cyn newid lliw y gwallt!) Ni ddylid eillio gwallt yn rhy fyr (awgrymir dim byrrach na gradd 3) ac ni ddylid gwneud eillio siapiau mewn gwallt.

**Ewinedd:** Ni ddylid defnyddio farnais ewinedd, gemwaith ar ewinedd nac ewinedd ffug.

**Gemwaith:** Gall gwisgo gemwaith neu dlysau yn yr ysgol fod yn beryglus. Ni chaniateir unrhyw fath o dlysau corff, clust na wyneb na gemwaith. Ceir un eithriad: Caniateir un pâr o glustdlysau bychain (studs) ym mlwyddyn 11 yn unig ar waelod y glust – un ym mhob clust.

Gall yr ysgol ofyn i ddisgybl dynnu eitemau gan ddefyddio'r hawl i gadw gemwaith am gyfnod rhesymol. Awgrymir fod rhieni yn trefnu i ddisgyblion sy'n bwriadu tyllu eu clustiau wneud hynny ar ddechrau gwyliau'r haf er mwyn osgoi problemau I'r disgyblion hynny pan fydd y tymor ysgol yn ailddechrau yn Medi. Rhaid i bob disgybl allu tynnu unrhyw dlysau allan erbyn 1 Medi pob blwyddyn.

**Trywsys:** Trywsys du plaen, dim defnydd jeans. Ni ddylid cael addurniadau na studs na labeli. Ni ddylai trywsys fod yn dynn. Ni ddylid cael zipiau amlwg arnynt.

**Esgidiau:** Caniateir esgidiau du plaen yn unig heb unrhyw farciau lliw. Ni chaniateir esgid gyda logo / ysgrifen / patrwm lliw na byclau nac unrhyw fath o boots (e.e. Uggs). Ni chaniateir trainers.

**Cotiau:** Caniateir gwisgo cotiau di-logo tywyll.

**Sgert:** Sgert ddu ( dim uwch na'r penglin) sydd ddim yn dynn gyda theits du.

**Sanau a teits:** Sanau unlliw plaen du, llwyd neu wyn. Teits lliw du.

**Blwyddyn 7, 8, 9:** Siwmper V neck swyddogol yr ysgol, tei swyddogol yr ysgol a chrys / blows gwyn plaen, cotwm neu polyester / cotwm.

**Blwyddyn 10 ac 11:** Crys chwys swyddogol yr ysgol a chrys polo swyddogol yr ysgol. Os yw disgyblion yn dewis gwisgo blows/crys gwyn cyffredin, rhaid gwisgo tei swyddogol hefyd.

Lliwiau'r ysgol ydy nefi ac aur. Dylai rhieni wneud yn siwr fod pob eitem o ddillad wedi eu marcio yn glir ag enw disgybl. Disgwylir i ddisgyblion wisgo ffedog yn y gwersi arlwyo. Ni chaniateir defnyddiau eraill e.e sidan, les, defnydd "see through" a.y.yb.

Yn ystod tymor yr haf, caniateir i'r disgyblion beidio a gwisgo siwmper ysgol (Bl. 7,8,9) neu grys chwys ysgol (Bl.10,11) Yn ystod y cyfnod hwn caiff disgyblion ddewis gwisgo blows/crys gwyn a thei swyddogol neu grys polo swyddogol gwyn heb dei.

**Addysg Gorfforol:** Am resymau iechyd disgwylir I bob disgybl newid cyn y gwersi Addysg Gorfforol neu chwaraeon. Rhaid gwisgo trainers addas, siorts du plaen, crys polo piws swyddogol yr ysgol (merched), crys polo nefi swyddogol yr ysgol (bechgyn), crys chwys ysgol ar gyfer tywydd oer, sanau pwrpasol gwyn.

# YSGOL Y MOELWYN, BLAENAU FFESTINIOG

Sylfaen i`r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol

AMSER DYN YW EI GYNYSGAETH

A foundation for the future in a caring environment



| Cwricwlwm, Trefniadaeth ac Asesu | Rhan 2<br>*Section 2* |
|---|---|
| *Curriculum, Assessment and Organisation* | |

## MATH O YSGOL

Mae Ysgol y Moelwyn yn ysgol uwchradd, sirol, ddwyieithog i ddisgyblion 11 - 16 oed.

## AMCAN YR YSGOL

Amcan yr ysgol yw paratoi disgyblion ar gyfer eu bywydau trwy osod sylfaen gref iddynt. Amcenir i feithrin yn y disgyblion werthoedd personol a chymdeithasol, i hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion. Mae`r ysgol yn amcanu i baratoi disgyblion i barchu eraill, i feithrin hunanbarch ac i ddatblygu dealltwriaeth lawn am agweddau iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles. Bydd yr ysgol yn cynnig y sylfaen hon drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau all-gyrsiol.

Mae`r ysgol yn ystyried ei bod hi`n flaenoriaeth i hyrwyddo lles a iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol disgyblion a staff yn ddi wahân.

*Gellir cael copi o amcanion yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth.*

## Y DIWRNOD YSGOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bore | 8.50 a.m. | - | 12.45 p.m. |
| Cinio | 12.45 p.m. | - | 1.30 p.m. |
| Prynhawn | 1.30 p.m. | - | 3.15 p.m. |

Mae'r ysgol yn gweithredu yn ôl amserlen o 30 gwers yr wythnos gyda 6 gwers y dydd. Mae pob gwers yn 50 munud o hyd a nifer yr oriau addysgu yr wythnos yw 25 awr sy'n unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad. Mae cyfnod dewisol y Clwb Gwaith Cartref dan arolygaeth yn cynyddu hyd y cyfnod hwn i 31 awr yr wythnos.

## TREFNIADAU YMWELD

Gwahoddir rhieni sy'n dymuno gweld yr ysgol neu drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ysgol i wneud trefniadau ymlaen llaw â'r Pennaeth naill ai ar y ffôn neu drwy lythyr pan yn bosibl. Bydd rhywun ar gael yn yr ysgol i ateb y ffôn a chymryd neges o 8.15 a.m. tan 4.15 p.m. Hefyd, mae aelod o uwch staff dysgu yr ysgol fel arfer yn bresennol y tu allan i`r oriau hyn.

## MYNEDIAD I'R YSGOL

Mae gan Ysgol y Moelwyn ei dalgylch naturiol sef dalgylchoedd ysgolion cynradd:

- Maenofferen, Blaenau Ffestiniog,
- Manod,
- Tanygrisiau,
- Ysgol Edmwnd Prys, Gellilydan,
- Ysgol Bro Cynfal, Llan Ffestiniog,
- Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd.

Mae Pennaeth a staff yr ysgol yn ymwybodol o'r pryder sydd ym meddyliau rhai disgyblion wrth feddwl am drosglwyddo i ysgol uwchradd a byddwn yn gwneud pob dim posibl i sicrhau trosglwyddo effeithiol a hapus. Byddwn yn gwneud hwn trwy:

- drefnu ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd i Ysgol y Moelwyn,

- wahodd y disgyblion a'u rhieni i Noson Agored yn yr ysgol,
- ymweld â'r cynradd i ddod i adnabod y plant ac i gyfarfod eu rhieni,
- anfon gwybodaeth i rieni.

Mae`r ysgol yn gweithredu Polisi Mynediad Awdurdod Addysg a Diwylliant Gwynedd a gellir cael mwy o wybodaeth am y polisi hwn yn llawlyfr Awdurdod Addysg Gwynedd o'r enw "Gwybodaeth i Rieni".

## CYSWLLT Â'R RHEINI

Credwn fod magu perthynas dda rhwng yr ysgol a'r cartref yn bwysig iawn i addysg y disgyblion a defnyddir amryw o ddulliau i gadw mewn cyswllt â'r rhieni. Credwn yn gryf fod cefnogaeth a diddordeb byw gan rieni yn allweddol i sicrhau llwyddiant y disgyblion. Rydym fel ysgol yn rhoi pwyslais blaenllaw ar safon y bartneriaeth hon rhwng rhieni ac ysgol. **Cofiwch ein bod yn croesawu rhieni i'r ysgol.**

Bydd rhieni yn derbyn gwybodaeth am ddyddiadau pwysig a digwyddiadau o bwys trwy'r calendr blynyddol, trwy`r Cylchlythyr ac hefyd trwy lythyrau/ebyst.

## CWRICWLWM YR YSGOL A THREFNIADAU'R DYSGU

Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau fod pob disgybl yn derbyn addysg gytbwys ar draws pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac hefyd yn cynnig yr holl elfennau trawsgwricwlaidd i'r disgyblion. Dysgir y pynciau naill ai yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog drwy'r ysgol.

**Blynyddoedd y Cwricwlwm Cenedlaethol**: Mae trefn blynyddoedd yr ysgol yn cydfynd â threfn blynyddoedd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r tudalennau nesaf yn dangos y patrymau cwricwlaidd 11 - 14 oed (Cyfnod Allweddol 3) ac hefyd 14 - 16 oed (Cyfnod Allweddol 4). Mae'r nodiadau isod yn ychwanegu at y patrymau:

| Blwyddyn olaf ysgol gynradd | Ysgol y Moelwyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfnod Allweddol 3 | | | Cyfnod Allweddol 4 | |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |

**Patrwm Cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed).**

Bellach, mae`r ysgol yn datblygu darpariaeth yn ôl gofynion cwricwlwm newydd i Gymru.

**Trefniadau grwpiau:** Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru mewn grwpiau gallu-cymysg drwy'r ysgol. Bydd disgyblion wedi eu setio mewn rhai pynciau ar ddechrau Blwyddyn 7. Ar ôl hanner tymor bydd y setiau yn cael eu hadolygu a bydd adolygiad tebyg yn digwydd yn dymhorol. Ym Mlwyddyn 8 a 9 hefyd bydd y disgyblion yn cael eu setio neu eu bandio yn ôl gallu yn y mwyafrif o bynciau. Rydym yn credu y bydd y drefn hon yn gadael i bob disgybl ddatblygu yn addysgol ond hefyd yn sicrhau fod disgyblion o bob gallu yn cymysgu â'i gilydd. Defnyddir dulliau dysgu amrywiol i addysgu'r plant sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn ôl oed a gallu a natur y pwnc. Bydd dulliau dysgu dosbarth, gwaith prosiect, gwaith grŵp, gwaith pâr, gwaith ymarferol ac ymweliadau allanol i gyd yn cael eu defnyddio ar wahanol adegau.

**Addysg Bersonol:** Mae'r rhaglen Addysg Bersonol yn cynnwys Tiwtorial, Gyrfau, Datblygu Sgiliau Craidd, Sgiliau Parchu Eraill, Addysg Iechyd, Addysg Rhyw, Drama, Sgiliau Dysgu, Cofnod Cyrhaeddiad, Dinasyddiaeth, prosesu geiriau ac elfennau eraill sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Ym Mlwyddyn 9 bydd y disgyblion yn cychwyn ar arweiniad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd.

**Patrwm Cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed).**

**Dewisiadau:** Ar ganol Blwyddyn 9 bydd disgyblion yn cael y cyfle, yn unol â'u gallu a'u tueddfryd, i astudio cyfuniad o bynciau sy'n arwain at arholiadau lefel TGAU neu gyrsiau galwedigaethol. Mae Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn rhan o'r cwricwlwm craidd ac mae'n rhaid i bob disgybl ei astudio yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd gofyn hefyd i bob disgybl astudio tri phwnc dewis ychwanegol. Ceir llawer mwy o fanylion yn y Llawlyfr Gwybodaeth i rieni disgyblion Blwyddyn 9. Mae'r patrwm cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 4 yn crynhoi'r dewisiadau sydd ar gael.

**Addysg Bersonol:** Bydd pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd yn derbyn arweiniad o dan y teitl Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae'r cwrs yn cynnwys Addysg Iechyd, Addysg Rhyw, Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, Cyfarwyddyd Gyrfaoedd, Dinasyddiaeth, Prosesu Geiriau, Technoleg Gwybodaeth, Sgiliau Parchu Eraill, Gwaith Cwrs a Gwaith Tiwtorial ar nifer o agweddau gwahanol. Mae pob disgybl hefyd yn treulio o leiaf wythnos ar Brofiad Gwaith ac yn cyfrannu at Gofnod o Gyrhaeddiad a Ffeil Gynnydd a drosglwyddir iddynt ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

**Y BAC:** Bydd pob disgybl yn cael cyfle i wneud cwrs y BAC.

**Arholiadau allanol:** Bydd yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer yr arholiadau canlynol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4:

**TGAU a chyrsiau eraill**: Dyma'r cyrsiau ar gyfer y mwyafrif o'r disgyblion. Mae'r cyrsiau yn cynnwys arholiadau a gwaith cwrs - Cymraeg Iaith Gyntaf (Iaith a Llen), Cymraeg Ail Iaith, Saesneg (Iaith a Llen), Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth (Dwbl), Bwyd a Maeth, TGCH, Ffrangeg, Sbaeneg, Drama, Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Crefyddol, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Arlunio a Dylunio, Drama. Cyrsiau partneriaeth â Choleg Meirion Dwyfor - Peiranneg, Iechyd a Gofal, Adeiladwaith, Trin Gwallt ac Electroneg.

**Anghenion Addysgol Ychwanegol**: Mae gan yr ysgol bolisi ffurfiol ar Anghenion Addysgol Ychwanegol (sydd ar gael yn yr ysgol). Mae'r polisi yn datgan sut mae'r ysgol yn sicrhau fod disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn cael y sylw priodol a chyfle cyfartal. Ceisir crynhoi prif bwyntiau'r polisi isod.

Mae'r ysgol yn defnyddio sawl ffordd i gynorthwyo plant sydd ag anghenion arbennig:

- cadw maint dosbarthiadau'n fach.
- rhoi sylw unigol gan dynnu disgyblion allan o wersi.
- sicrhau ail athro/awes mewn rhai gwersi er mwyn estyn cymorth i ddisgyblion penodol.
- darparu cefnogaeth cynorthwydd dysgu.

Mae'r ysgol, o dan arweiniad y Cydgysylltydd Anghenion Ychwanegol, yn amrywio'r dulliau uchod yn ôl y gofyn. Yn ogystal â'r uchod mae disgyblion penodol yn cael gwersi darllen ac ysgrifennu ychwanegol ac mae nifer o staff eraill yn cynorthwyo'r disgyblion (mae'r amser a glustnodir yn gyfwerth â dros 2 athro).

Mae`r drefn o ddarparu gwersi ychwanegol yn ystod y cyfnod tiwtorial yn sicrhau cynnydd arwyddocaol o du`r mwyafrif llethol o ddisgyblion sy`n dilyn y rhaglen.

Mae Seicolegydd Addysg yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i weld disgyblion sydd wedi eu cyfeirio gan yr ysgol neu gan y rhieni gan gynnig cyngor a chyfarwyddyd. Mewn rhai achosion

trefnir cymorth ychwanegol drwy'r Awdurdod Addysg Lleol. Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni ymhob achos.

Mae'r ysgol yn croesawu'r cydweithrediad sydd ag asiantaethau eraill (Uned Dislecsia'r Brifysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol, Swyddogion Lles, Seicolegwyr Addysg a.y.y.b.) er mwyn cynorthwyo'r disgyblion. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn estyn peth cymorth ariannol i'r ysgol er mwyn gwneud y gwaith.

Er nad yw'r ysgol wedi ei chlustnodi fel un sy'n darparu'n benodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion corfforol arbennig rydym mewn sefyllfa i gynorthwyo amryw o ddisgyblion sydd â nam ar y golwg neu'r clyw. Mewn achosion o`r fath, bydd yr ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau darpariaeth ac adnoddau dysgu addas.

Yn yr achosion uchod, bydd y Pennaeth Blwyddyn perthnasol a`r Cydgysylltydd Anghenion Dysgu ychwanegol yn cydweithio i gynnal cyswllt â`r disgybl, rhieni, ysgolion eraill ag asiantaethau perthnasol yn y cyfnod cyn ac ar ôl i ddisgybl ddechrau yn yr ysgol er mwyn darparu cefnogaeth briodol a sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal o safbwynt mynediad i`r cwricwlwm.

Mae'r Cydgysylltydd Anghenion Dysgu ychwanegol hefyd yn gyfrifol am hybu datblygiad addysgiadol plant mewn gofal ac yn chwarae rôl arweiniol wrth hyrwyddo materion cynhwysiad yr ysgol.

**Addysg Iechyd a Rhyw:** Mae'r Corff Llywodraethol yn credu y dylai Addysg Rhyw fod yn rhan allweddol a chreiddiol o gwricwlwm pob disgybl yn Ysgol y Moelwyn. Cyflwynir Addysg Iechyd a Rhyw fel rhan o Addysg Bersonol. Yn ychwanegol bydd cyfleoedd yn codi i drafod agweddau o'r gwaith mewn pynciau eraill (e.e. agweddau ffeithiol mewn gwersi Gwyddoniaeth). Bydd disgyblion yn derbyn gwybodaeth a chyfarwyddyd ar newidiadau corfforol glasoed, cenhedlu ac atalcenhedlu, AIDS a heintiau rhywiol eraill, Addysg Gyffuriau, Addysg Alcohol ac agweddau eraill. Trefnir gweithgareddau achlysurol er mwyn atgyfnerthu'r gwaith hwn. Dysgir Addysg Rhyw o fewn fframwaith moesol a rhoddir pwyslais ar werth bywyd teuluol a pherthynas. Bydd staff yr ysgol, gan gynnwys y cydgysylltwr addysg iechyd, yn cydweithio`n glos ag asiantaethau proffesiynol allanol i ddewis a dethol deunydd dysgu addas a chyflwyno`r rhaglen hon.

*Gellir gweld polisi'r ysgol ar Addysg Rhyw drwy gysylltu â'r Pennaeth.*
*Gall rhieni wneud cais ysgrifenedig i'w plentyn gael ei eithrio o'r gwersi Addysg Rhyw.*

**Chwaraeon:** Nod yr ysgol yw rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu eu doniau addysg corfforol i`r eithaf a`u hannog i feithrin arferion da a fydd, gobeithio, yn parhau ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae gan yr ysgol adnoddau safonol gan gynnwys pwll nofio, campfa (yn cynnwys offer safonol), cae bob tywydd a chae pêldroed ac athletau. Hefyd mae ystafell ffitrwydd yn cynnwys offer safonol iawn wedi cael ei hadeiladu ar dir yr ysgol. Rhoddir pwyslais ar baratoi disgyblion ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau yn yr ysgol. Cynhelir sesiynau hyfforddi rygbi, pêldroed, hoci, pêl rwyd, gymnasteg, traws gwlad, athletau a phêl fasged a chaiff disgyblion gyfle i chwarae gemau yn erbyn ysgolion eraill. Rhoddir pwyslais hefyd ar weithgareddau megis rhedeg traws gwlad a gymnasteg. Mae gwahanol glybiau yn y gymuned yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau`r ysgol, yn arbennig felly y cae pob tywydd. Mae swyddogion datblygu gemau ac arbenigwyr gemau penodol hefyd yn ymweld â`r ysgol i gynnal sesiynau hyfforddi.

Mae`r ysgol yn rheoli Canolfan Chwaraeon y Moelwyn. Ar y naill law mae`r disgyblion felly yn gallu manteisio ar yr adnoddau yn ystod y dydd ac hefyd mae`r ysgol yn gwneud cyfraniad cymunedol cadarn drwy ddarparu rhaglen hamdden a ffitrwydd cynhwysfawr i`r gymuned leol.

**Addysg Grefyddol ac Addoliad Boreol**: Yn unol â`r disgwyl, cyflwynir Addysg Grefyddol o safbwynt anenwadol i bob disgybl. Bydd yn adlewyrchu ein traddodiad Cristnogol lleol yn bennaf ond bydd hefyd yn cynnwys athrawiaethau ac arferion crefyddau eraill sydd yn y wlad hon a thu hwnt. Cynhelir gwasanaethau Cristnogol anenwadol yn rheolaidd. Gall rhieni wneud cais ysgrifenedig i'w plentyn gael ei eithrio o'r gwasanaeth ac o'r gwersi Addysg Grefyddol.

Bydd yr ysgol yn gwneud darpariaeth amgen ar gyfer y disgyblion hyn naill ai o fewn y grŵp dysgu arferol neu fel arall.

**Gwersi Offerynnol**: Mae gwasanaeth athrawon teithiol yn ategu gwaith yr Adran Gerdd. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i dderbyn gwersi lleisiol, piano, ffidil, pres, telyn, gitar a drymiau. Dylid cysylltu â Phennaeth yr Adran Gerdd am fwy o wybodaeth.

**Cyfarwyddyd Gyrfaoedd**: Mae Cyfarwyddyd Gyrfaoedd yn rhan bwysig o'r Cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Cyflwynir Addysg Gyrfaoedd mewn modiwlau ym Mlwyddyn 9, 10 ac 11 ond caiff disgyblion iau flas ar rai unedau hefyd. Yn ystod Blwyddyn 10 ac 11 bydd disgyblion yn derbyn sesiynau rheolaidd o gyngor gan staff yr ysgol a staff cwmni Gyrfa Cymru.

Mae Profiad Gwaith yn rhan hanfodol o'r cwrs Addysg Gyrfaoedd ac mae cysylltiad cryf wedi ei wneud â mwyafrif helaeth o gyflogwyr yr ardal. Caiff disgyblion blwyddyn 10 gyfle i dreulio pythefnos ar brofiad gwaith mewn lleoliad addas.

Mae`r rhaglen Addysg Yrfaol hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion gynyddu eu menter, eu hunanhyder a`u hymwybyddiaeth o fyd gwaith drwy agweddau megis: menter; ffug gyfweliadau; ymweliadau i leoliadau gwaith a chyflwyniadau gan gyflogwyr yn yr ysgol. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn dilyn rhaglen COMPACT.

GyrfaCymru
CareersWales

Mae **Gyrfa Cymru** yn gwmni annibynnol sy'n arbenigo mewn rhoi cyngor, gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd.

Mae'r cwmni yn falch o weithio mewn partneriaeth gydag Ysgol y Moelwyn i sicrhau fod y disgyblion yn cael y sylfaen orau posib i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gyrfa i'r dyfodol.

Chi fel rhieni/gwarcheidwaid yw'r dylanwad mwyaf ar ddewis gyrfa eich plant. Fel cwmni, gallwn eich helpu i ddeall yr holl newidiadau sydd yn digwydd ym myd addysg a gwaith. Bydd hyn yn eich galluogi chi i helpu eich plentyn i wneud y dewisiadau gorau.

Bydd **Gyrfa Cymru** yn cynnig nifer o wasanaethau i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwad:

- cyfarwyddyd gyrfaoedd i ddisgyblion yn unigol ac mewn grŵp.
- Digwyddiadau gwybodaeth.
- Gweithgareddau ychwanegol fel gweithdai menter.
- Mynychu cyfarfodydd i rieni/gwarcheidwaid yn yr ysgol i drafod dewisiadau yn 14+ a 16+.
- Cefnogaeth i ddisgyblion gyda anghenion ychwanegol.
- Adnoddau gyrfaoedd.

'Rydym fel cwmni yn awyddus i'ch cynnwys chi wrth drafod syniadau eich plentyn ac 'rydym

yn eich annog i gysylltu gyda ni yn y Ganolfan Gyrfa leol neu trwy'r ysgol.
GYRFA CYMRU; Uned 6a, Stad Busnes Penamser, Porthmadog.
01766 510980 / 0800389 *9603*

## ASESU, COFNODI ac ADRODD

**Asesu**: Mae'r ysgol yn credu fod asesu cynnydd a datblygiad plentyn yn rhan annatod o'r broses addysgu.

Asesir gwaith pob plentyn yn gyson - gwaith dosbarth a gwaith cartref, gwaith ysgrifenedig, gwaith llafar a sgiliau ymarferol. Mae gan bob adran yn yr ysgol gynlluniau asesu sy'n addas ar gyfer y gwaith a wneir ac sy'n ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Felly bydd peth amrywiaeth rhwng y dulliau a ddefnyddir mewn gwahanol bynciau.

Bydd pob disgybl yn derbyn arholiad neu brawf ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd disgyblion yn derbyn rhybudd digonol ymlaen llaw er mwyn iddynt baratoi yn ddigonol ar eu cyfer. (Mae'r arholiadau a'r profion ffurfiol hyn yn ychwanegol at y profion rheolaidd a osodir mewn gwahanol pynciau). Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol Tri (blwyddyn 9) bydd disgyblion yn sefyll arholiadau mewnol ym mhob pwnc.

Yn ychwanegol at y profion ffurfiol bydd yr ysgol yn cynnal asesiad interim o ddatblygiad pob disgybl unwaith y tymor. Bydd y drefn hon yn rhoi darlun cyfan o ddatblygiad y disgybl. Yn dilyn yr asesiad bydd pob disgybl yn cael cyfweliad â'i diwtor dosbarth a bydd rhai disgyblion yn cael sylw pellach.

**Adrodd i rieni:** Bydd rhieni pob disgybl yn derbyn tri adroddiad ar waith eu plant pob blwyddyn - un adroddiad llawn a dau adroddiad interim (yn dilyn "asesiad" o'r disgyblion). Bydd rhieni disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 hefyd yn derbyn adroddiad hunan asesu a gwblheir ar y cyd rhwng pob disgybl unigol a thiwtor. Trefnir cyfarfodydd rhieni i roi cyfle i rieni ac athrawon drafod gwaith y plant. Os bydd pryder am ddatblygiad disgybl bydd yr ysgol yn gofyn i rieni ddod i`r ysgol i drafod y sefyllfa. Ar ddiwedd Blwyddyn 11 bydd pob disgybl yn derbyn Cofnod Cyrhaeddiad.

## GWYBODAETH YMARFEROL

**Gwaith Cartref**: Mae'r ysgol yn ystyried gwaith cartref yn rhan hanfodol bwysig o waith disgyblion. Mae'n bwysig fod disgyblion yn meddwl am eu gwaith cartref fel rhan hollol sylfaenol o'u gwaith ysgol. Gall gwaith cartref gymryd sawl ffurf - gwaith ysgrifenedig, dysgu, darllen, adolygu, ymchwilio a.y.y.b. Bydd gofyn i ddisgyblion Blwyddyn 7 a 8 wneud o leiaf awr/awr a hanner o waith cartref bob nos. Bydd yr amser yn codi i o leiaf dwy awr erbyn Blwyddyn 9 a bydd disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 weithio yn ôl yr angen. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref yn hollbwysig. Gofynnir i'r rhieni sicrhau fod eu plant yn cwblhau pob gwaith cartref yn drefnus a thaclus. Mae`r ysgol hefyd yn gofyn i bob rhiant fwrw golwg ar y llyfr cyswllt bob wythnos.

**Tynnu lluniau o blant:** O dro i dro, bydd lluniau yn cael eu tynnu o`r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda`r ysgol neu at bwrpas hyfforddi. Gall rhai o`r lluniau yma gael eu rhoi mewn papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safle gwê yr ysgol. Gallant hefyd gael eu defnyddio gan Gyngor Gwynedd neu sefydliadau cyfrifol eraill y bydd yr

ysgol yn cydweithio â nhw. Bydd disgyblion hefyd weithiau yn cael eu ffilmio a gall y lluniau yma gael eu darlledu`n gyhoeddus.

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod pob defnydd o`r fath yn un cyfrifol. Mae'r ysgol yn gofyn am ganiatad pob rhiant i dynnu a rhannu lluniau disgyblion.

**Calendar yr ysgol ar gyfer y flwyddyn:** Darperir copi o galendar yr ysgol ar ddechrau pob blwyddyn.

**Cylchlythyr presenoldeb yr ysgol:** Mae cylchlythyr presenoldeb yn manylu am drefniadau a disgwyliadau presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol.

**Manylion 'Show my Homework':** Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen 'Show my Homework' i roi manylion am waith cartref. Darperir canllawiau llawn i rieni.

**Ffurflen casglu data:** Gofynir i rieni lenwi ffurflen data ar ddechrau pob blwyddyn a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau.

**Ffurflen iechyd a theithiau addysgol:** Gofynnir i rieni gwblhau ffurflen iechyd ar gyfer eu plentyn. Ni fydd yr ysgol yn gofyn i rieni gwblhau ffurflenni iechyd ychwanegol yn ystod y flwyddyn am y math yma o weithgareddau.

- Teithiau addysgol sy`n cychwyn ar ddechrau`r diwrnod ysgol ac yn gorffen naill ai ar ddiwedd y diwrnod ysgol neu yn fuan ar ôl hynny. Byddwch yn cael manylion ar bapur am y gweithgareddau yma a bydd yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd i`ch plentyn fynychu pob taith unigol.
- Teithiau maes Daearyddiaeth lleol. e.e. taith gerdded 50 munud yng nghyffiniau`r ysgol.
- Gemau cystadleuol e.e. pêldroed ar ôl ysgol.
- Trefniadau Clwb Gwaith Cartref yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn gofyn am ffurflen iechyd newydd ar gyfer trefniadau eraill megis teithiau preswyl.

**Rhwydwaith gyfrifiadurol yr ysgol a defnydd o'r rhyngwê:** Mae gan yr ysgol rwydwaith gyfrifiadurol. Caiff pob disgybl enw defnyddiwr a chyfrinair personol sy'n caniatau iddynt ddefnyddio'r rhwydwaith, y rhyngwê a chadw eu gwaith mewn ffolder na all neb ond hwy ei defnyddio. Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen i reoli a monitro'r defnydd o'r rhwydwaith a`r rhyngwê gan bob disgybl unigol (mae`r rhaglen yn rhwystro mynediad i safleoedd anaddas ac yn tracio a chofnodi pob defnydd gan bob defnyddiwr). Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio'r cyfrifiaduron ar yr amod eu bod yn darllen ac yn cadw at y canllawiau defnyddwyr. Gofynir i chi fel rhieni drafod y canllawiau hyn gyda'ch plentyn (ynghlwm) a chadarnhau y bydd eich plentyn yn eu cadw.

**Loceri:** Mae **Cyfeillion Ysgol y Moelwyn** wedi gwario swm sylweddol o arian er mwyn prynu loceri ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r loceri yma o gymorth i hwyluso pethau i`r disgyblion trwy ganiatau iddynt gadw ffeiliau, llyfrau, dillad Addysg Gorfforol a.y.y.b. yn ddiogel o dan glo.

Bydd yr ysgol yn codi blaendâl o £6 ar gyfer pob locer. Dychwelir yr arian yma ar ddiwedd cyfnod disgybl yn yr ysgol os yw`r locer wedi ei gadw mewn cyflwr da. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn codi £3 am unrhyw oriad a gollir.

Mae`r ysgol hefyd yn cadw`r hawl i archwilio`r locer os oes amheuaeth fod disgybl yn ei gamddefnyddio. Os ydych yn dymuno llogi locer, a wnewch lenwi`r atodiad a`i ddychwelyd, gyda`r arian, i`r tiwtor dosbarth.

**Cysylltu â rhieni trwy e-bost:** Fel ysgol, rydym yn defnyddio trefn i gysylltu â rhieni trwy e-bost. Gall hyn fod o gymorth i wneud yn siwr nad yw llythyrau a.y.y.b. yn cael eu colli ar y

ffordd gartref. Os ydych yn fodlon i`r ysgol gysylltu â chi trwy e-bost, a wnewch lenwi`r atodiad os gwelwch yn dda.

**Manylion system cashless y ffreutur a system talu arlein:** Mae`r ysgol yn defnyddio system biometrics yn y ffreutur. Gofynir am eich caniatâd i`ch plentyn ddefnyddio`r drefn hon.

**Presenoldeb – trefniadau ymarferol:** Os yw eich plentyn yn sâl a wnewch roi gwybod i`r ysgol ar **fore cyntaf yr absenoldeb** os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu fel hyn:

- O fewn oriau swyddfa defnyddiwch y rhif: 01766 830435.
- Y tu allan i oriau swyddfa (cyn 8:00 a.m. ac ar ôl 4:00 p.m.) defnyddiwch y llinell ffôn cofnodi absenoldebau (01766 833030).

A wnewch adael yr wybodaeth yma os gwelwch yn dda.

- Enw, a dosbarth eich plentyn.
- Dyddiad(au) yr absenoldeb.
- Eich enw a`ch perthynas chi a`r plentyn (rhiant, taid, nain a.y.y.b.).

Pan fydd **rhiant/gwarchodwr** yn ffonio ni fydd angen cadarnhau rheswm am absenoldeb ar bapur. Pan fydd person arall yn ffonio, gofynir i chi fel rhiant gadarnhau`r rheswm am yr absenoldeb ar bapur.

Mae disgwyl i bob disgybl fod ar dir yr ysgol am 8:45 yn y bore a 1:25 p.m. ar gyfer sesiwn y prynhawn. Edrychaf ymlaen yn fawr at gyflwyno tystysgrif i bob disgybl sydd wedi llwyddo i gynnal presenoldeb a phrydlondeb 100% ddiwedd mis Medi.

Mae cynnwys y cylchlythyr presenoldeb yn dangos yn glir beth yw disgwyliadau uchel yr ysgol o bresenoldeb. Cofiwch drefnu apwyntiadau deintyddol a meddygol naill ai ar ôl ysgol neu ddiwedd y prynhawn fel bod eich plentyn yn gallu mynychu mwyafrif os nad pob gwers.

**Ymaelodi â llyfrgelloedd Gwynedd:** Os nad yw eich plentyn yn aelod o lyfrgell Gwynedd awgrymir eich bod yn ystyried ymaelodi. Gall disgyblion sy'n aelodau gael mynediad ar lein yn ystod oriau ysgol ar rwydwaith yr ysgol ac hefyd gyda`r nos. Gellir cael ffurflen ymaelodi o`r llyfrgell leol. Beth am ystyried ymaelodi fel teulu?

**Llyfrynnau defnyddiol:** Bydd eich plentyn yn derbyn yr isod.

- **Llyfr cyswllt:** Gan fod yr ysgol yn defnyddio app 'Show my homework' bellach nid ydym yn gwneud defnydd o`r llyfr gwaith cartref. Fodd bynnag, mae gennym lyfr cyswllt cryno ar gyfer trosglwyddo rhai negesueon rhwng yr ysgol a`r cartref.
- **Llyfr Geirfa:** Llyfr geirfa Cymraeg/Saesneg a Saesneg/Cymraeg yw hwn. Mae`n cynnwys nifer o`r prif dermau y bydd disgwyl i`ch plentyn eu meistroli yn y Gymraeg a`r Saesneg yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
- **Llyfr Diffiniadau Gwyddoniaeth:** Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys termau a diffiniadau Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3.
- **Llyfr Iaith:** Mae`r llyfr hwn yn cynnwys llawer o reolau a phethau pwysig i`w cofio am iaith.

**Cynllun Llyfrgell yr Adran Gymraeg a`r Saesneg:** Mae gan y ddwy adran gynllun darllen llyfrau Llyfrgell. Os gwelwch yn dda wnewch chi annog eich plentyn i ddarllen llyfrau llyfrgell yn gyson!

**Offer:** Dyma`r rhestr offer y dylai pob disgybl ddod i`r ysgol yn ddyddiol: pren mesur; beiro glas du coch a gwyrdd; pensiliau lliw; onglydd; rwbiwr. Dim tippex na chyfrifiannell.

**Swyddog lles:** Mae gan yr ysgol swyddog lles sy`n treulio o leiaf un diwrnod ar y safle bob wythnos. Croeso i chi gysylltu â`r ysgol i drefnu apwyntiad os oes angen.

**Cwnselydd:** Mae gan yr ysgol gwnselydd fydd yn gweithio hefo rhai disgyblion yn ystod y flwyddyn.

**Trefniadau cinio:** Gall disgyblion fwyta yn y ffreutur, ddod â brechdanau i` r ysgol neu wneud cais i gael pass i fynd gartref yn ystod y cyfnod cinio. Mae`r trefniant olaf hwn ar gael yn unig i disgyblion sy`n byw`n lleol. Anogir rhieni i ddefnyddio system talu arlein yr ysgol am brydau cinio er mwyn osgoi`r angen i ddisgyblion ddod ag arian i`r ysgol.

## CYTUNDEB DISGYBL, RHIENI AC YSGOL

Fel sail i gydweithio er lles eich plentyn, gwahoddir rhieni a disgyblion ar ddecrhau gyrfa ysgol i lofnodi`r cytundeb isod sydd yn nodi disgwyliadau ar gyfer y disgybl, y rhiant a'r ysgol.

**CYTUNDEB CARTREF/YSGOL Y MOELWYN**

**ENW DISGYBL:** ____________________ **DOSBARTH:** ____________________

**Gwnawn ein gorau i:**

- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
- Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
- Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Sicrhau amgylchedd saff i'ch plentyn.
- Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Roi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
- Roi cyngor i'ch plentyn ynglyn â dewisiadau addysgol a phersonol.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

**Arwyddwyd:** ____________________ **(Ysgol)**




**Gwnaf fy ngorau i:**

- Weithio'n galed yn yr ysgol a chyrraedd fy nhargedau.
- Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon ac hyd eithaf fy ngallu.
- Gyflwyno fy ngwaith yn daclus.
- Ddod â'r offer cywir i'r holl wersi.
- Fod yn brydlon.
- Fod yn bresennol a dal i fyny â gwaith y gallwn fod wedi ei golli.
- Fod yn onest.
- Gadw at holl reolau'r ysgol.
- Wisgo gwsig ysgol.
- Barchu fy hun ac eraill.
- Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
- Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

**Arwyddwyd:** ____________________ **(Disgybl)**

- Yr allwedd i lwyddiant -

Partneriaeth rhwng:

Y disgybl.
Y rhieni.
Yr ysgol.

**Gwnaf/Gwnawn ein gorau i:**

- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn dal i fyny â gwaith a gollwyd.
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i`r ysgol ac ar amser.
- Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
- Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gwsg.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
- Wneud yn siwr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
- Siarad efo fy/ein plentyn am ei fywyd a'i waith yn yr ysgol.
- Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

**Arwyddwyd:** ____________________ **(Rhiant/Gwarchodwr)**

## DARPARIAETH YCHWANEGOL

**Clwb Gofal Gwaith Cartref**: Cynhelir Clwb Gwaith Cartref am gyfanswm o 5 awr bob wythnos h.y. o 3:30-4:30 p.m. bob nos Lun, Nos Fawrth, Nos Fercher a Nos Iau. Mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth bws ychwanegol yn rhad ac am ddim i`r disgyblion ar y nosweithiau hyn. Mae`r Clwb yn gyfle i ddisgyblion wneud gwaith cartref, gwblhau gwaith cwrs, wneud gwaith adolygu neu unrhyw waith arall o dan arolygaeth aelod o staff dysgu yr ysgol mewn awyrgylch trefnus a distaw. Hefyd darperir gweithgaredd dan hyfforddiant rhwng 3:30 - 4:30 o ddydd Llun tan nos Iau yn yr ystafell ffitrwydd, y gampfa a`r cae bob tywydd.

**Llyfrgell yr Ysgol:** Mae Canolfan Adnoddau Ysgol y Moelwyn ar agor am bedair noson yr wythnos, sef nos Lun, nos Fawrth, nos Fercher a nos Iau o 3:15-4:30 p.m. Mae cymhorthydd yn arolygu`r defnydd o`r llyfrgell yn ystod y cyfnod hwn.

**Tiwtorials:** Mae nifer o adrannau yn cynnal gwersi, tiwtorials neu sesiynau i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion naill ai yn ystod y cyfnod cinio neu ar ôl ysgol. Mae`r ddarpariaeth hon yn bennaf ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11.

**Gweithdy gwyliau:** Mae`r ysgol fel arfer yn cynnal gweithdai i ddarparu cymorth a chefnogaeth ychwanegol yn ystod y gwyliau.

**Gweithgareddau allgyrsiol:** Mae'r ysgol yn trefnu nifer o weithgareddau allgyrsiol. Fel arfer, trefnir nifer o ymweliadau addysgol amrywiol e.e. teithiau i'r theatr, diwydiant lleol, gwaith maes, Eisteddfodau'r Urdd a theithiau i gymryd rhan mewn chwaraeon a mabolgampau.

## POLISI IAITH

Cymraeg yw iaith naturiol yr ysgol ar y coridor ac hefyd yn y gwasanaethau boreol. Nod ieithyddol yr ysgol yw meithrin agwedd gadarnhaol at fanteision dwyieithrwydd a datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgybl yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r eithaf.

Dysgir Cymraeg a Saesneg i'r holl ddisgyblion drwy'r ysgol a bydd pob disgybl hefyd yn dysgu Ffrangeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 9 (gall disgyblion ddewis astudio Ffrangeg fel pwnc arholiad wedi hynny). Dysgir Saesneg i bob disgybl a Chymraeg fel iaith gyntaf i fwyafrif y disgyblion a bydd cyrsiau a chymorth priodol i ddysgwyr neu newydd-ddyfodiaid. Cyflwynir pob pwnc naill ai yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd pob adran yn penderfynu'n unigol i ba raddau mae hyn yn bosibl yn CA4.

*Gellir gweld copi o'r Polisi Iaith yn yr ysgol.*

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi o godi tâl ar ddisgyblion am:

- gostau llety a bwyd a chostau eraill ar ymweliadau addysgol.
- weithgareddau y tu allan i oriau ysgol.
- arholiadau allanol pan nad yw'r ysgol wedi paratoi'r disgybl ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn ysgol.
- arholiadau allanol pan na fydd disgybl yn cyflawni'r gofynion neu fynychu'r arholiad heb reswm digonol.
- ddifrod i eiddo'r ysgol neu am golli eiddo'r ysgol.

Ceir manylion pellach yn yr ysgol ynghyd â gwybodaeth ar gyfer disgyblion mewn angen.

**Gwobrau ac anrhydeddau yr ysgol yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf.**

| GWOBR / GWAITH BLAENGAR AC ARWEINIOL | Blwyddyn |
|---|---|
| • Ysgol Cwricwlwm arloesol Llywodraeth Cymru. | 2019-2020 |
| • Gweithredu fel ysgol arweiniol Gwe yn Ne Gwynedd.<br>• Ysgol Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru.<br>• Ysgol Cwricwlwm arloesol Llywodraeth Cymru.<br>• Darparu cefnogaeth cynhwysiad i ysgolion uwchradd Gwynedd | 2018-19 |
| • Gweithredu fel ysgol arweiniol Gwe yn Ne Gwynedd. | 2017-18 |
| • Ail ennill Gwobr Ansawdd Cam 5 ysgolion Iach. | 2016-17 |
| • Ysgol gydarweiniol llythrennedd.<br>• Ysgol Bargen Newydd.<br>• Ysgol cwricwlwm arloesol. | 2015-16 |
| • Ysgol yn aelod o dîm arwain project Her Cymru codi safonau Ysgolion yng Nghymru.<br>• 34 ysgol Uwchradd (allan o 220) wedi bod yn edrych ar sut rydan ni`n gweithio.<br>• Ysgol y Moelwyn wedi gwneud 2 gyflwyniad cenedlaethol a nifer o gyflwyniadau lefel uchel.<br>• Un o dair ysgol Uwchradd yng Nghymru i ennill rhagoriaeth ar bob un dangosydd ansawdd mewn arolwg ESTYN.<br>• Gwobr Ysgolion Iach Cam 6. | 2014-15 |
| • Yn uchaf ar drefn bandio trwy Gymru. | 2013-14 |
| • Yn ail ar drefn bandio trwy Gymru.<br>• Gwobr Ansawdd Aur Buddsoddwyr Mewn Pobol | 2012-13 |

## TREFN GWYNO

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cŵyn dan y trefniadau hyn. Mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â Chylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003/2004 Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafodaethau gyda'r Pennaeth ac aelodau eraill o staff yr ysgol. Hwn fyddai'r cam cyntaf a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol.

Gellir trefnu apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth drwy gysylltu â'i ysgrifenyddes yn yr ysgol.

## HUNANARFARNU

Ceir copi o flaenoriaethau cyfredol y cynllun datblygu yn yr adroddiad blynyddol. Penderfynwyd ar y blaenoriaethau yma yn dilyn proses o hunan arfarnu yn yr ysgol. Caiff y cynllun hwn ei fonitro`n gyson gan y Tîm Rheoli.

Mae`r ysgol ar hyn o bryd yn gweithredu nifer o strategaethau penodol gan gynnwys strategaeth ddigidol, strategaeth llythrennedd a strategaeth codi safonau.

## SUT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn darparu copïau o ddogfennau statudol a chylchlythyrau ymhob ysgol a gall y rhieni drefnu i ymweld â'r ysgol i gael gweld y dogfennau yn ddi-dâl. Ceir hefyd yn yr ysgol gasgliad llawn o bolisïau'r ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol ynghyd â chopïau o gynlluniau gwaith, meysydd llafur ac adroddiadau A.E.M. Ceir hefyd fanylion ar sut i apelio yn erbyn penderfyniadau ar fynediad. Gall y Pennaeth ddarparu copïau o ddatganiadau am bris y llungopïo yn unig (ni ellir copïo dogfennau hawlfraint).

Gall rhiant drefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol i gael golwg ar y wybodaeth sydd ar gael am ei blentyn. Gan fod peth o'r wybodaeth ar gyfrifiadur dylid gwneud trefniadau a rhoi rhybudd rhesymol cyn ymweld.

---

*Mae'r manylion yn y ddogfen hon yn gywir adeg eu cyhoeddi ond ni ddylid cymryd yn ganiataol na fydd newid a allai effeithio ar drefniadau cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol.*

**AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL Medi 2020**

| **Yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol:** | **Tymor yn dod i ben:** |
|---|---|
| Cyng. Annwen Daniels | 08/2021 |
| Cyng. Elfed Roberts | 08/2021 |
| Mr. Craig Jones | 08/2021 |
| Cyng. Robert Glyn Daniels | 08/2021 |
| **Yn cynrychioli'r Rhieni:** | |
| Mr. Michael Halliday Jones | 08/2022 |
| Mr. Richard Williams | 08/2021 |
| Mrs. Sioned Hughes | 08/2021 |
| Mr. Keith Davies | 08/2021 |
| Ms. Pegi Gruffydd | 08/2021 |
| **Yn cynrychioli'r staff dysgu:** | |
| Mrs. Eleri Moss | 08/2021 |
| Mrs. Cheryl Owen | 08/2021 |
| **Yn cynrychioli'r staff (heb fod yn staff dysgu)** | |
| Mrs. Morwena Roberts | 08/2021 |
| **Aelodau Cyfetholedig:** | |
| Mrs. Bini Jones | 08/2021 |
| Mr. Dafydd Jarrett | 08/2021 |
| Mr. William Roberts | 08/2021 |
| Mr. Sion Jones | 08/2022 |

**Pennaeth:**

Mr. Dewi Lake

**Dirprwy:**

Mrs. Eleri Moss

**Clerc i'r Llywodraethwyr:**

Mrs. Bethan Haf Jones, Swyddog Gweinyddol, Ysgol y Moelwyn, Heol Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol:**

Mrs. Bini Jones, Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog.

Cynhelir yr etholiadau rhieni-lywodraethwyr nesaf yn y flwyddyn 2021. Y pryd hynny, bydd yr ysgol yn cysylltu â phob rhiant i wahodd enwebiadau. Yn dilyn derbyn enwebiadau, cysylltir â phob rhiant eto gyda manylion yr etholiad.

**STAFF YR YSGOL MEDI 2020**

**Staff Dysgu**

| | |
|---|---|
| Mr. Dewi Lake | Pennaeth. |
| Mrs. Eleri Moss | Pennaeth Mewn Gofal, Pennaeth Blwyddyn 7, Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Tiwtor Proffesiynol, Cydlynydd BAC. |
| Mrs. Mari Roberts | Pennaeth Cynorthwyol, Pennaeth Cymraeg, Pennaeth Blwyddyn 10 ac 11. Cydgysylltydd pontio ac ail iaith. |
| Mrs. Elin Williams | Pennaeth Hanes, cydgysylltydd llythrennedd, aelod cyswllt o`r UDRH. |
| Miss Sharon Davies | Pennaeth Saesneg, aelod cyswllt o`r UDRH. |
| Mr. Owain Huws | Pennaeth Strategol Gwyddoniaeth a Mathemateg. |
| Miss Suzanne Roberts | Pennaeth Blwyddyn 7 a Pennaeth Addysg Grefyddol. |
| Mrs. Gail Chart-Parry | Pennaeth Blwyddyn 8, Mathemateg. |
| Mrs. Rhian Williams | Pennaeth Blwyddyn 9, Cymraeg. |
| Mrs. Ffion Williams | Pennaeth Mathemateg. |
| Mrs. Elin Sion | Mathemateg |
| Miss Georgia Churm | Saesneg |
| Mrs. Cheryl Lloyd-Owen | Pennaeth Technoleg Gwybodaeth |
| Mrs. Annette Morris | Pennaeth Celf. |
| Miss Stephanie Haines | Pennaeth Ffrangeg. |
| Mrs. Nicola Roberts | Gwyddoniaeth (Cemeg). |
| Mrs. Ceri Lane | Gwyddoniaeth (Bioleg). |
| Miss Gwenno Foster Evans | Gwyddoniaeth (Ffiseg) |
| Mrs. Carys Thomas | Pennaeth Technoleg. |
| Mr. Edward Roberts | Daearyddiaeth. |
| Miss Alwen Williams | Pennaeth Addysg Gorfforol. |
| Mr. Ceri Roberts | Addysg Gorfforol |
| Mrs. Wendy Jenkins | Pennaeth Cerdd/Drama. |
| Mrs Delyth Jones | Pynciau amrywiol. |

**Staff Ategol**

| | |
|---|---|
| Mr. Daniel Bell | Swyddog Cynhwysiad |
| Miss Marion Hughes | Uwch gymhorthydd/Arolygwraig dosbarthiadau |
| Mrs. Llio Griffiths | Uwch gymhorthydd/Arolygwraig dosbarthiadau |
| Miss Llinos Jones | Uwch gymhorthydd/Arolygwraig dosbarthiadau |
| Ms Einir Thomas | Cymhorthydd dysgu |
| Mrs. Gwenith Roberts | Cymhorthydd dysgu |
| Mrs. Valerie Williams | Cymhorthydd dysgu |
| Mr. Gari Jones | Cymhorthydd dysgu |
| Mr. Rhys Williams | Cymhorthydd dysgu |
| Mr. Cai Parry | Cymhorthydd dysgu |
| Miss Gwenllian Pyrs | Swyddog Rygbi dalgylchol |
| Mr. Dylan Jones | Gofalwr. |
| Ms. Wendy Evans | Gofalwraig |
| Mr. Stephen Jones | Gofalwr |
| Mrs. Mena Price | Swyddog Gweinyddol/Personel |
| Mrs. Bethan Haf Jones | Swyddog Gweinyddol/Clerc i'r Llywodraethwyr/Swyddog |

| | |
|---|---|
| | Arholiadau |
| Mrs. Sharon Jones | Ysgrifenyddes. |
| Miss Arwen Jones | Cymhorthydd Swyddfa. |
| Miss Gwerfyl Jarrett | Swyddog Data. |
| Miss Sera Jones | Derbynnydd/Cymhorthydd dysgu/gweithgwraig til. |
| Ms. Christine McKenzie | Uwch-Dechnegydd. |
| Mr. Ken Parry | Technegydd. |

**Staff Glanhau**

| | |
|---|---|
| Ms. Wendy Evans | Glanhawraig |
| Ms. Ann Davies | Glanhawraig |
| Ms. Gaynor Wynn Hughes | Glanhawraig |
| Ms. Rona Eaton | Glanhawraig |
| Mrs. Alison Copsey | Glanhawraig |
| Miss Iola Morris | Glanhawraig |
| Mrs. Eira Kirkman | Glanhawraig |

**Staff Cegin**

| | |
|---|---|
| Mrs. Morwenna Ann Roberts | Cogyddes Mewn Gofal |
| Mrs. Alison Copsey | Cymhorthydd Cynorthwyol |
| Ms. Wendy Evans | Cymhorthydd Cynorthwyol |
| Mrs. Nia Hughes | Cymhorthydd Cynorthwyol |
| Mrs. Liza Thomas | Cymhorthydd Cynorthwyol |
| Miss Eleri Roberts | Cymhorthydd Cynorthwyol |
| Mrs. Olive Jones | Goruchwyliwr amser cinio |

**Staff teithiol**

| | |
|---|---|
| Mr. Aled Williams | Pres. |
| Mr. Dylan Rowlands | Telyn/Piano. |
| Mr. Billy Thompson | Gitar a Drymiau. |

| Calendar Ysgol y Moelwyn *Calendar* – 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref/*Autumn Term*** | | |
| **Dyddiad/*Date*** | **Blwyddyn/*Year*** | **Gweithgaredd/*Activity*** |
| 3.9.20 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref / *First day of Autumn Term* |
| 5.10.20 | 11 | Asesiad interim a Noson Rieni Blwyddyn 11<br>*Year 11 interim assessment and Parent's Evening* |
| 12.10.20 | 7 | Asesiad cychwynnol a Noson Rieni Blwyddyn 7<br>*Year 7 initial assessment and Parent's Evening* |
| 19.10.20 | 10 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 10<br>*Year 10 interim assessment and Parent's Evening* |
| 23.10.20 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>**In-service training for staff – no school for pupils** |
| **26-30.10.20 Gwyliau hanner tymor yr Hydref/*Autumn term half term holiday*** | | |
| 9.11.20 | 9 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 9<br>*Year 9 interim assessment and Parent's Evening* |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Noson wobrwyo/Award evening |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Noson agored/ *Open evening.* |
| 30.11.20 | 7 + 8 | Asesiad interim bl. 7 ac 8/*Years 7and 8 interim assessment* |
| 7.12.20 | 9 | Asesiad interim bl. 9 /*Year 9 interim assessment* |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Cyngerdd Dolig/*Christmas Concert* |
| 11.12.20 | 11 | Ffug arholiadau Bl. 11 / *Year 11 mock examinations* |
| 18.12.20 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor yr Hydref / *Last day of Autumn Term* |
| **Tymor y Gwanwyn/*Spring Term*** | | |
| 4.1.21 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>**In-service training for staff – no school for pupils** |
| 5.1.21 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor y Gwanwyn / *First day of Spring Term* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10+11 | Arholiadau TGAU bl. 10 ac 11 /*GCSE Examinations* |
| 18.1.21 | 11 | Adroddiad a Noson Rieni Bl. 11/ *Year 11 Parent's Evening and Report* |
| 25.1.21 | 9 | Noson ddewisiadau bl. 9/*Year 9 Options evening* |
| 28.1.21 | 9 | Arholiadau terfynol bl. 9/*Final Year 9 Examinations* |
| 8.2.21 | 9 | Adroddiad terfynol bl. 9/*Year 9 narrative report* |
| 12.2.21 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>*In-service training for staff – no school for pupils* |
| **15-19-2.21 Gwyliau hanner tymor y Gwanwyn/*Spring term half term holiday*** | | |
| 22.2.21 | 9 | Dechrau cyrsiau TGAU/Beginning GCSE courses |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Eisteddfod sir yr Urdd |
| 1.3.21 | 10 | Arholiadau terfynol bl. 10/*Final Year 10 Examinations* |
| 15.3.21 | 11 | Asesiad Interim Bl. 11 / *Year 11 Interim Assessment* |
| 15.3.21 | 7, 8 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 7+8<br>*Year 7+8 interim assessment and Parent's Evening* |
| 22.3.21 | 10 | Noson Rieni Bl. 10 / *Year 10 Parent's Evening* |
| 26.3.21 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn /*Last day of Spring Term* |
| **Tymor yr Haf/*Summer Term*** | | |
| 12.4.21 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor yr Haf / *First day of Summer Term* |
| 19.4.21 | 7 | Arholiadau Bl. 7 / *Year 7 examinations* |
| 26.4.21 | 8 | Arholiadau Bl. 8 / *Year 8 examinations* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10 + 11 | Arholiadau TGAU yn dechrau / *Start date for GCSE examinations* |
| 3.5.21 | Pawb/*All* | Gŵyl Banc Mai/*Mayday Bank holiday.* |

| | | |
|---|---|---|
| 17.5.21 | 7 + 8 | Adroddiad terfynol bl. 7 ac 8/*Year 7 and 8 narrative report.* |
| **31.5.21-4.6.21 Gwyliau Hanner tymor yr Haf/*Summer term half term holiday*** | | |
| 14.6.21 | 9 | Asesiad interim bl. 9/*Year 9 Interim Assessment* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10 + 11 | Arholiadau TGAU yn gorffen/ *End date for GCSE examinations* |
| 21.6.21 | 10 | Asesiad interim /*Interim report (3)* |
| 5.7.21 | 7-9 | Gweithgareddau trawsgwricwlaidd/*Cross curricular activities* |
| 16.7.21 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor yr Haf / *Last day of Summer Term* |

# YSGOL Y MOELWYN, BLAENAU FFESTINIOG

Sylfaen i`r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol

AMSER DYN YW EI GYNYSGAETH

A foundation for the future in a caring environment



| Canlyniadau Arholiadau ac Ystadegau eraill | Rhan 3 |
|---|---|
| *Examination Results and other Statistics* | *Section 3* |

## DATA YSGOL

**MYNEDIAD I`R YSGOL:** Rhif safonol yr ysgol ar gyfer y flwyddyn hon a`r llynedd oedd 120. Mae`r ffigwr hwn bellach dan adolygiad trwy drafodaeth â`r Awdurdod Addysg. Ar gyfer y flwyddyn 2019/2020 gwnaed cais i 69 o ddisgyblion fynychu`r ysgol. Dylai rheini sydd am gofrestru eu plant yn yr Ysgol gysylltu â swyddfa addysg Cyngor Gwynedd.

**PRESENOLDEB YSGOL:** Mae presenoldeb disgyblion Ysgol y Moelwyn ar y cyfan yn dda. Mae'r ysgol yn ceisio annog presenoldeb rheolaidd drwy'r drefn fugeiliol, ethos yr ysgol a monitro cyson gan aelodau o'r staff. Gwobrwyir presenoldeb da. Mae'r ysgol hefyd yn cadw cyswllt agos gyda rhieni lle mae problem gyda phresenoldeb disgybl. Gofynnir i bob rhiant ffonio ar unwaith pan fydd eu plant yn absennol. Hefyd, mae`r ysgol yn gweithredu trefn gyfrifiadurol ar gyfer cofrestru disgyblion. Ffigyrau ysgol gyfan swyddogol am y flwyddyn 2019 - 2020 ydy:

| | |
|---|---|
| Canran Absenoldebau Anawdurdodedig: | 0.8% |
| Canran Cyfanswm Absenoldebau: | 5.4% |
| Presenoldeb: | 93.8% |
| Presenoldeb Medi 2019 i ddiwedd Mai 2020: | 94.3% |

| Canrannau Absenoldebau Anawdurdodedig fesul Blwyddyn a Thymor 2019-2020 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor yr Hydref 2019** | **Tymor y Pasg 2020** | **Tymor yr Haf 2020** |
| **Blwyddyn 7** | 0.2% | 0.1% | 0.0% |
| **Blwyddyn 8** | 1.0% | 0.4% | 0.3% |
| **Blwyddyn 9** | 0.7% | 0.0% | 0.0% |
| **Blwyddyn 10** | 0.7% | 0.7% | 0.1% |
| **Blwyddyn 11** | 1.4% | | |

**CYRCHFAN DISGYBLION SY'N GADAEL**

Ar ôl 16 oed bydd mwyafrif helaeth o ddisgyblion yr ysgol yn mynd ymlaen i goleg addysg bellach. Mae disgyblion hefyd yn dilyn y llwyrau isod:

- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.
- Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.
- Coleg Meirion Dwyfor, safleoedd Dolgellau, Pwllhelli a Glynllifon.
- Coleg Llandrillo Menai, safle Bangor a Llangefni.
- Cynllun prentisiaid.
- Gwaith cyflogedig.

| Cyrchfannau 2019 | Benyw | Gwryw | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|
| Parhau mewn addysg amser llawn - Yr un ysgol | 0 | 0 | 0 | - |
| Parhau mewn addysg amser llawn - Ysgol | 8 | 1 | 9 | 16.67% |
| Parhau mewn addysg amser llawn - Coleg | 17 | 23 | 40 | 74.07% |
| Parhau mewn addysg amser llawn - AU | 0 | 0 | 0 | - |
| Blwyddyn fwlch | 0 | 0 | 0 | - |
| Parhau mewn addysg ran-amser | 0 | 0 | 0 | - |
| Dechrau cyflogaeth tu allan i Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc | 0 | 1 | 1 | 1.85% |
| Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (statws cyflogedig) | 1 | 2 | 3 | 5.56% |
| Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (heb statws cyflogedig) | 0 | 1 | 1 | 1.85% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn gallu cael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP (di-waith) | 0 | 0 | 0 | - |
| Methu NEU DDIM YN BAROD i gael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP (e.e. salwch, dedfryd o gaethiwed) | 0 | 0 | 0 | - |
| Yn hysbys iddynt adael yr ardal | 0 | 0 | 0 | - |
| Dim ymateb i'r arolwg, felly'n anhysbys | 0 | 0 | 0 | - |
| **Cyfanswm y gadawyr ysgol statudol yn 2019** | **26** | **28** | **54** | **100.0%** |

**CANLYNIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A GWYBODAETH GYMHAROL GENEDLAETHOL.**

**Canlyniadau TGAU 2020**

| Pwnc | A* | A | B | C | D | E | F | G | U | A* - C | A* - G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | 9.4 | 9.4 | 26.4 | 34.0 | 13.2 | 5.7 | 1.9 | 0.0 | 0.0 | 79.2 | 100.0 |
| **Llenyddiaeth Cymraeg** | 9.4 | 9.4 | 11.3 | 37.7 | 24.5 | 5.7 | 0.0 | 1.9 | 0.0 | 67.9 | 100.0 |
| **Saesneg** | 3.8 | 11.3 | 13.2 | 32.1 | 28.3 | 5.7 | 3.8 | 1.9 | 0.0 | 60.4 | 100.0 |
| **Llenyddiaeth Saesneg** | 1.9 | 13.2 | 20.8 | 32.1 | 24.5 | 3.8 | 3.8 | 0.0 | 0.0 | 67.9 | 100.0 |
| **Mathemateg** | 9.3 | 9.3 | 24.1 | 18.5 | 18.5 | 7.4 | 3.7 | 9.3 | 0.0 | 61.1 | 100.0 |
| **Rhifedd** | 10.9 | 10.9 | 28.3 | 21.7 | 17.4 | 4.3 | 4.3 | 2.2 | 0.0 | 71.7 | 100.0 |
| **Gofal Plant** | 0.0 | 22.2 | 33.3 | 44.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 |
| **Bwyd a Maeth** | 0.0 | 0.0 | 25.0 | 75.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 |
| **Celf** | 10.5 | 15.8 | 26.3 | 36.8 | 10.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 89.5 | 100.0 |
| **Daearyddiaeth** | 0.0 | 18.8 | 18.8 | 18.8 | 18.8 | 12.5 | 12.5 | 0.0 | 0.0 | 56.3 | 100.0 |
| **Hanes** | 11.1 | 13.9 | 22.2 | 27.8 | 8.3 | 13.9 | 2.8 | 0.0 | 0.0 | 75.0 | 100.0 |
| **Addysg Grefyddol** | 16.7 | 22.2 | 16.7 | 16.7 | 16.7 | 5.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 72.2 | 100.0 |
| **Drama** | 7.1 | 28.6 | 28.6 | 28.6 | 0.0 | 7.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 92.9 | 100.0 |
| **Cerdd** | 22.2 | 11.1 | 44.4 | 22.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 |
| **Addysg Gorfforol** | 14.3 | 7.1 | 35.7 | 35.7 | 7.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 92.9 | 100.0 |
| **Technoleg** | 0.0 | 7.1 | 21.4 | 35.7 | 14.3 | 21.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 64.3 | 100.0 |
| **TGCH** | 1.9 | 9.3 | 14.8 | 31.5 | 16.7 | 14.8 | 11.1 | 0.0 | 0.0 | 57.4 | 100.0 |
| **Sbaeneg** | 0.0 | 50.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 50.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 50.0 | 100.0 |

| Pwnc | ** | *A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE | EF | FF | FG | GG | U | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwydd** | 5.8 | 1.9 | 1.9 | 1.9 | 5.8 | 11.5 | 15.4 | 13.5 | 3.8 | 5.8 | 1.9 | 7.7 | 5.8 | 5.8 | 7.7 | 3.8 | 52.0 | 98.0 |

**CANLYNIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A GWYBODAETH GYMHAROL GENEDLAETHOL.**

| | Maes | 2016-2017 | 2017-2018 | 2018-2019 | 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| YYM | Sgor pwyntiau wedi capio 9 | - | - | 369 | |
| Teulu | | - | - | 378 | |
| Awdurdod | | - | - | 362 | |
| Cymru | | - | - | 354 | |
| YYM | Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Cymru | 41 | 42 | 42 | |
| Teulu | | 35 | 38 | 40 | |
| Awdurdod | | 37 | 38 | 36 | |
| Cymru | | 29 | 37 | 36 | |
| YYM | Dangosydd llythrennedd | 44 | 43 | 44 | |
| Teulu | | 43 | 43 | 43 | |
| Awdurdod | | 42 | 41 | 41 | |
| Cymru | | 39 | 39 | 39 | |
| YYM | Dangosydd rhifedd | 38 | 39 | 38 | |
| Teulu | | 41 | 41 | 40 | |
| 40Awdurdod | | 39 | 38 | 37 | |
| Cymru | | 38 | 38 | 37 | |
| YYM | Dangosydd Gwyddoniaeth | - | 37 | 37 | |
| Teulu | | - | 41 | 41 | |
| Awdurdod | | - | 38 | 38 | |
| Cymru | | - | 37 | 37 | |
| YYM | Canran 5 A*A | 24% | 21% | 21% | |
| Teulu | | 19% | 20% | 21% | |
| Awdurdod | | 21% | 19% | 17% | |
| Cymru | | 17% | 18% | 18% | |
| YYM | Canran trothwy L2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemteg heb gynnwys llenyddiaeth. | 61% | 57% | 52% | |
| Teulu | | 63% | 62% | 61% | |
| Awdurdod | | 58% | 55% | 54% | |
| Cymru | | 55% | 55% | 50% | |
| YYM | Canran Trothwy L2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg gan gynnwys llenyddiaeth | - | - | 52% | |
| Teulu | | - | - | 61% | |
| Awdurdod | | - | - | 54% | |
| Cymru | | - | - | 50% | |
| YYM | Canran Lefel 1 | 100% | 100% | 100% | |
| Teulu | | 99% | 97% | 97% | |
| Awdurdod | | 97% | 96% | 95% | |
| Cymru | | 94% | 94% | 93% | |

| Calendar Ysgol y Moelwyn *Calendar* – 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref/*Autumn Term*** | | |
| **Dyddiad/*Date*** | **Blwyddyn/*Year*** | **Gweithgaredd/*Activity*** |
| 3.9.20 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref / *First day of Autumn Term* |
| 5.10.20 | 11 | Asesiad interim a Noson Rieni Blwyddyn 11<br>*Year 11 interim assessment and Parent's Evening* |
| 12.10.20 | 7 | Asesiad cychwynnol a Noson Rieni Blwyddyn 7<br>*Year 7 initial assessment and Parent's Evening* |

| | | |
|---|---|---|
| 19.10.20 | 10 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 10<br>*Year 10 interim assessment and Parent's Evening* |
| 23.10.20 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>**In-service training for staff – no school for pupils** |
| **26-30.10.20 Gwyliau hanner tymor yr Hydref/*Autumn term half term holiday*** | | |
| 9.11.20 | 9 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 9<br>*Year 9 interim assessment and Parent's Evening* |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Noson wobrwyo/Award evening |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Noson agored/ *Open evening.* |
| 30.11.20 | 7 + 8 | Asesiad interim bl. 7 ac 8/*Years 7and 8 interim assessment* |
| 7.12.20 | 9 | Asesiad interim bl. 9 /*Year 9 interim assessment* |
| I`w gadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Cyngerdd Dolig/*Christmas Concert* |
| 11.12.20 | 11 | Ffug arholiadau Bl. 11 / *Year 11 mock examinations* |
| 18.12.20 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor yr Hydref / *Last day of Autumn Term* |
| **Tymor y Gwanwyn/*Spring Term*** | | |
| 4.1.21 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>**In-service training for staff – no school for pupils** |
| 5.1.21 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor y Gwanwyn / *First day of Spring Term* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10+11 | Arholiadau TGAU bl. 10 ac 11 /*GCSE Examinations* |
| 18.1.21 | 11 | Adroddiad a Noson Rieni Bl. 11/ *Year 11 Parent's Evening and Report* |
| 25.1.21 | 9 | Noson ddewisiadau bl. 9/*Year 9 Options evening* |
| 28.1.21 | 9 | Arholiadau terfynol bl. 9/*Final Year 9 Examinations* |
| 8.2.21 | 9 | Adroddiad terfynol bl. 9/*Year 9 narrative report* |
| 12.2.21 | Pawb/*All* | Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim ysgol ar gyfer disgyblion<br>*In-service training for staff – no school for pupils* |
| **15-19-2.21 Gwyliau hanner tymor y Gwanwyn/*Spring term half term holiday*** | | |
| 22.2.21 | 9 | Dechrau cyrsiau TGAU/Beginning GCSE courses |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | Pawb/*All* | Eisteddfod sir yr Urdd |
| 1.3.21 | 10 | Arholiadau terfynol bl. 10/*Final Year 10 Examinations* |
| 15.3.21 | 11 | Asesiad Interim Bl. 11 / *Year 11 Interim Assessment* |
| 15.3.21 | 7, 8 | Asesiad interim a Noson Rieni Bl. 7+8<br>*Year 7+8 interim assessment and Parent's Evening* |
| 22.3.21 | 10 | Noson Rieni Bl. 10 / *Year 10 Parent's Evening* |
| 26.3.21 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn /*Last day of Spring Term* |
| **Tymor yr Haf/*Summer Term*** | | |
| 12.4.21 | Pawb/*All* | Diwrnod cyntaf Tymor yr Haf / *First day of Summer Term* |
| 19.4.21 | 7 | Arholiadau Bl. 7 / *Year 7 examinations* |
| 26.4.21 | 8 | Arholiadau Bl. 8 / *Year 8 examinations* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10 + 11 | Arholiadau TGAU yn dechrau / *Start date for GCSE examinations* |
| 3.5.21 | Pawb/*All* | Gŵyl Banc Mai/*Mayday Bank holiday.* |
| 17.5.21 | 7 + 8 | Adroddiad terfynol bl. 7 ac 8/*Year 7 and 8 narrative report.* |
| **31.5.21-4.6.21 Gwyliau Hanner tymor yr Haf/*Summer term half term holiday*** | | |
| 14.6.21 | 9 | Asesiad interim bl. 9/*Year 9 Interim Assessment* |
| I`w cadarnhau/to be confirmed | 10 + 11 | Arholiadau TGAU yn gorffen/ *End date for GCSE examinations* |
| 21.6.21 | 10 | Asesiad interim /*Interim report (3)* |
| 5.7.21 | 7-9 | Gweithgareddau trawsgwricwlaidd/*Cross curricular activities* |
| 16.7.21 | Pawb/*All* | Diwrnod olaf Tymor yr Haf / *Last day of Summer Term* |